

Cyngor Cymuned Pennal
Pennal Community Council

PWYLLGOR MIS EBRILL 2019

Dim ymddiheiriadau

Aethpwyd trwy y cofnodion a cynigiwyd hwy yn gywir gan James Brunton a Keneth Griffiths yn eilio

Materion yn codi Deallwyd bod tri o finniau Cwn wedi eu gaddo a dim ond dau wedi cyraedd byddai Dewi Owen yn edrych mewn ir mater.

Toiledau angen eu peintio dim wedi clywed dim yn ol o Cyngor Gwynedd

.Carden Bank dim yn medru cael un oherwydd 3 yn arwyddor Sieciau.

Anfonwyd llythyr at berchnogion Ty Uchaf Cwrt yn gofyn a fyddent yn fodlon cysudro rhoir enw Cymraeg yn ol ar y ty derbyniodd y clerc alwad ffon gan y perchenog yn anffodlon ar y mater wedi trafod yn hamddenol gofynodd y clarc ir perchenog ail ddarllen y llythyr a deall eu bwrpas

Fynwent Plwy Pennal maer Cyngor wedi tacluso ac yn bwriadu yn y dyfodol agos clerior pridd di angen oddi yna, hefyd fe dacluswyd yr ardd Goffa, fe fydd y Cyngor yn edrych ar waith cynnal a chadw y fynwent bob 3 mis ermwyn eu chadw yn daclus. dilynir canllawiau a phrisiau Cyngor Gwynedd i ofalu am y fynwent

Trwsio Fens yr Ysgol dal I aros a amcan bris arall.

Cyngor Gwynedd Adran Briffyrdd Dolgellau . Roedd y Cyngor yn awaddus iawn i Ddiolch ir adran hon am y gwaith sydd wedi cymryd lle yn ddiweddar i wneud gwellianau ar hyd y ffyrdd A 493 ag hefyd o fewn plwy Pennal ar ardal.

Sietyn ger Tainewyddion

Mae yn rhaid gofyn unwaith eto wrth Mr Ross am dorri peth or sietyn ger y ffordd gan eu bod yn bachu mewn drych lorriau a bysiau os na geir ymateb tro yma fe fydd rhaid anfon y mater ymhellach

Precept a Cyllideb y Cyngor mae digon o arian wrth gefn felly maer precept yn ddigonol edrychwn arno eto mewn tri mis.

Cais Cynllunio Yr Ynys Cwrt NP5/75/73C

Trosi ac addasu BCF hut I greu llety gwyliau gosod tanc septic a chreu trac a mynediad parcio. Nid oedd gwrthwynebiad.

Cloc yr Eglwys gofynwyd cwestiwn pam nad oedd y cloc yn mynd ar Cyngor wedi cyfrannu at eu atgyweirio byddair clarc yn cysylltu ar swyddogion yr Eglwys

Standing Orders derbyniwyd acytunwyd I gyd ymffurfio a nhw.

Arwydd Happy Valley derbyniwyd ebost o Gyngor Tywyn yn gofyn am gefnogaeth yn rhybyddio loriau yn gyru a satanaf bod y ffordd yma yn an addas ar gyfer loriau mawr roedd y Cyngor yn gytun a hyn.

BDO wedi cyhoeddi archwiliad fe fyddair llyfrau yn mynd I Dolgellsu yn fuan at Eluned Fon Jones archwilydd mewnol Cyngor Gwynedd. Mewn adroddiad or Archwilydd Cyffredinol Cymru roedd Pennal wedi cael eu rhestru fel un o 24 o Gynghorau nad oedd wedi ymateb iddyn nhw serch bod y Clarc wedi anfon atyn nhw ddwy waith gyda atebion yw cwestiynau. mae anfonlonrwydd mawr ynghylch a hyn. gan fod oriau o waith wedi eu wneud i gael popeth at eu gilydd ac yna mwy a mwy o gwestiynnau gwastraff pres ac amser .

Deilwen Breese cler